MAPIO CYMUNEDOL Y RHWS

1/1/2017

Adroddiad Ymgysylltu

Bu'r gweithgareddau mapio cymunedol yn mynd rhagddynt yn ystod hydref 2016. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys arolwg cymunedol, sesiynau galw i mewn a Gweithdy Mapio Cymunedol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi rhagor o fanylion y gweithgareddau ac yn crynhoi'r canfyddiadau.

Contents

1. Cyflwyniad 2

2. Mapio cymunedol yn y rhws 2

3. Ymgysylltu â'r gymuned 3

4. Aarolwg cymunedol y rhws 3

4.1 Ynglŷn â'r gymdogaeth 4

4.2 Llyfrgell y rhws 5

4.3 Amdanoch chi 7

5. Ssiynau galw heibio mapio cymunedol y rhws 8

6. Gweithdy mapio cymunedol y rhws 9

7. Prif ganfyddiadau 10

Mapio Cymunedol y Rhws

ADRODDIAD YMGYSYLLTU

1. Cyflwyniad

Caiff Prosiect Mapio Cymunedol y Rhws ei ariannu dan raglen LEADER Cyngor Bro Morgannwg, rhaglen â chyllid Ewropeaidd, i gyflawni adfywio gwledig drwy ddatblygu syniadau arloesol a all greu buddion cymdeithasol ac economaidd hirdymor i'r Fro wledig. Un o themâu'r rhaglen adfywio yw helpu 'Cymunedau i Ddatblygu' drwy ymchwilio i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau, cyfleusterau, gweithgareddau a rhwydweithiau. Nod mapio cymunedol yw dod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu â phobl i nodi, mewn modd cadarnhaol, beth yw asedau (ffisegol a chymdeithasol) ac anghenion y gymuned.

Y Rhws oedd y drydedd gymuned yn y Fro wledig i beilota'r mapio cymunedol, gan ddefnyddio'r Llawlyfr Mapio Cymunedol Drafft, a gafodd ei ddatblygu gan y Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC).

2. Mapio Cymunedol yn y Rhws

Roedd y dull a weithredwyd yn y Rhws ychydig yn wahanol i'r un a weithredwyd yn Sain Tathan ac yng Ngwenfô. Yn Sain Tathan rhoddwyd cefnogaeth fanwl er mwyn adeiladu darlun clir o anghenion y gymuned. Yng Ngwenfô, gweithiodd y tîm CGC gyda Chyngor Cymuned Gwenfô i ddod o hyd i beth oedd barn y gymuned am eu syniadau prosiect ar gyfer y gymuned.

Yn y Rhws, cysylltodd tîm rheoli Llyfrgell y Rhws â'r tîm CGC i gynorthwyo â'r gwaith mapio cymunedol yng nghymuned ehangach y Rhws, gan fynd ati'n benodol i dargedu darpariaeth gwasanaethau'r llyfrgell. Roedd Tîm Rheoli Llyfrgell y Rhws yn y broses o gymryd yr awenau gan y cyngor o ran gweithredu'r llyfrgell, ac roedd yn awyddus i gael gwybod gan y gymuned pa wasanaethau/gweithgareddau y bydden nhw'n dymuno eu gweld yn y dyfodol.

Mae ward y Rhws yn ward ddaearyddol fawr yn y Fro wledig. Mae'n cynnwys cymuned y Rhws yn ogystal â nifer o bentrefi bach cyfagos gan gynnwys Ffwl-y-mwn, Dwyrain Aberddawan, Nurston, Moulton, Pen-marc, Tre Aubrey, Llancatal, Llanbydderi, Llantrithyd a Llancarfan. Mae'r Rhws ei hun yn amrywiol ac mae ganddi nifer o ardaloedd ar wahân gan gynnwys, Trwyn y Rhws, Reader's Way, canol y pentref, Celtic Way, Ffontygari a Phorthceri. Mae newidiadau mawr ar y gweill yn yr ardal gan gynnwys datblygiadau newydd yn Nhrwyn y Rhws. Roedd y gwaith mapio cymunedol yn cynnwys yr holl gymunedau yn ward y Rhws, fodd bynnag ni chafwyd llawer o adborth gan y pentrefi cyfagos.

3. Ymgysylltu â'r Gymuned

O'i gymharu â'r ymgysylltu a ddigwyddodd yn Sain Tathan, nid oedd y gwaith ymgysylltu hwn mor ddwys.

Cynorthwyodd tîm rheoli Llyfrgell y Rhws i lywio'r cynllun mapio cymunedol ar gyfer yr ardal ac i bennu'r dull a weithredwyd i ymgysylltu'n eang â'r gymuned. Gwnaethant gynorthwyo â'r gwaith o baratoi rhestr o gysylltiadau ar gyfer yr ardal a hyrwyddo'r arolwg a'r sesiynau galw heibio. Eu dymuniad nhw oedd cynnal digwyddiad a gwahodd y trigolion hynny a oedd yn weithredol yn y gymuned. Roedd y gr□p o'r farn y byddai arolwg cymunedol a sesiynau galw heibio yn annog y rhai hynny a all fod â diddordeb mewn cymryd rhan i fod yn bresennol neu i ddweud eu dweud.

Er mwyn cael adborth gan y gymuned, cynhaliwyd y gweithgareddau mapio cymunedol canlynol:

- Arolwg Cymunedol y Rhws
- Sesiynau galw heibio yng Nghanolfan Gymunedol y Rhws (Stewart Road) a Chanolfan Gymunedol Celtic Way
- Gweithdy Mapio Cymunedol ar gyfer Rhanddeiliad

Anfonwyd taflen yn hysbysebu pobl am yr arolwg cymunedol a'r sesiynau galw heibio yn ymwneud â mapio cymunedol i bob eiddo yn ward y Rhws yr wythnos yn cychwyn 17 Hydref 2016. Anfonodd Vale Letterbox daflen i bob eiddo yn y pentrefi cyfagos, sef: Nurston, Moulton, Pen-marc, Tre-Aubrey, Llancatal, Llanbydderi, Llantrithyd a Llancarfan. Gwirfoddolodd Clwb Gwaith Cartref y Fro, a leolir yn y Rhws, i ddosbarthu'r taflenni ym mhentref y Rhws yn ystod wythnos hanner tymor (wythnos yn dechrau 24 Hydref 2016). Yn anffodus, ni roddwyd digon o daflenni iddynt ac nid oeddent yn gallu dosbarthu ar hyd Fontygary Road nac yn Nwyrain Aberddawan.

Gosodwyd posteri mewn lleoliadau cymunedol yn y Rhws gan gynnwys y canolfannau cymunedol a'r llyfrgell. Hyrwyddwyd y daflen ar dudalennau Facebook lleol yn y Rhws gan gynnwys tudalen Hyb y Rhws, tudalen llyfrgell gymunedol y Rhws a thudalen 'Respect' Trwyn y Rhws. Cafwyd erthygl yn sôn am y gwaith mapio cymunedol yn y 'Gem' ddydd Iau 27 Hydref 2016 yn annog trigolion i gwblhau'r arolwg a bod yn bresennol yn y sesiynau galw heibio.

4. AROLWG CYMUNEDOL Y RHWS

Roedd yr arolwg ar agor am 5 wythnos o ddydd Llun 17 Hydref tan ddydd Llun 21 Tachwedd 2016. Anogwyd aelodau o'r cyhoedd i gwblhau'r arolwg ar-lein. Roedd copïau papur ar gael yng Nghanolfan Gymunedol y Rhws (Stewart Road) ac yn y Llyfrgell. Roedd yr arolwg ar gael i'w gwblhau yn Gymraeg.

Cwblhawyd cyfanswm o 185 o arolygon gan gynnwys 2 arolwg yn Gymraeg a 26 copi papur. Cwblhawyd bron i 70% yn syth ar ôl dosbarthu'r taflenni yn ystod yr wythnosau yn cychwyn 24 a 31 Hydref.

4.1 Ynglŷ n â'r Gymdogaeth

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi beth yr oeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned a rhoddwyd detholiad o ddewisiadau er mwyn iddynt allu dewis un. Nododd nifer o ymatebwyr y byddent wedi hoffi dewis mwy nag un opsiwn. Nododd y rhan fwyaf (56%) eu bod yn gwerthfawrogi'r arfordir a chefn gwlad fwyaf a nododd 20% eu bod yn gwerthfawrogi'r ysbryd cymunedol. Ychydig iawn o ymatebwyr (llai na 5%) ddangosodd mai'r hyn yr oeddent yn ei werthfawrogi fwyaf oedd y gwasanaeth bysus lleol, y gwasanaeth trenau lleol, bod yn agos at eu gweithle a'r amrywiaeth o opsiynau tai. Ymysg pethau eraill yr oedd yr ymatebwyr yn eu hoffi oedd y dafarn, y tawelwch a'r llyfrgell.

Pan ofynnwyd iddynt am yr hyn nad oeddent yn ei hoffi fwyaf, gan ddewis o'r un amrywiaeth o ddewisiadau, nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr (tua 50%) nad oeddent yn hoffi'r amrywiaeth o wasanaethau / cyfleusterau lleol. Nododd dros 20% mai'r gwasanaeth bysus neu drenau lleol oedd y pethau nad oeddent yn eu hoffi fwyaf. Dywedodd nifer fach o'r ymatebwyr nad oeddent yn hoffi pa mor agos/pell o'r gwaith yr oeddent (4%); yr ysbryd cymunedol (4%); mynediad at yr arfordir a chefn gwlad (0.5%); nac yr amrywiaeth o opsiynau tai sydd ar gael (7%). Awgrymodd yr ymatebwyr bethau eraill nad oeddent yn eu hoffi gan gynnwys y parciau lleol (yn enwedig yr ardaloedd chwarae a'r cyrtiau tennis sydd angen eu hadnewyddu). Ymysg yr awgrymiadau eraill oedd sicrhau gwell darpariaethau chwaraeon a sefydlu campfa leol.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ymwybodol o'r cyfleusterau yn yr ardal a mwy na 90% yn ymwybodol o Ganolfan Gymunedol Stewart Road, Canolfan Gymunedol Celtic Way, llyfrgell y Rhws, mwy na 80% yn ymwybodol o Barc Milburn ac ardaloedd chwarae i blant a mwy na 70% yn ymwybodol o ardal fowlio Celtic Way, caeau chwaraeon Ceri Road a chaeau pêl-droed Celtic Way.

Y cyfleuster a ddefnyddir fwyaf yw Canolfan Gymunedol Stewart Road gan mai dim ond 24% o ymatebwyr nad ydynt yn ei ddefnyddio. Y cyfleuster y defnyddir lleiaf ohono yw ardal fowlio Celtic Way gan nad yw mwy na 90% o ymatebwyr yn ei ddefnyddio.

Y gostyngiad mwyaf o ran defnydd yw Llyfrgell y Rhws gan fod bron 17% o ymatebwyr wedi nodi y bu iddynt ddefnyddio llai ohoni dros y flwyddyn ddiwethaf, er bod 15% o ymatebwyr yn nodi eu bod yn defnyddio mwy ohoni a 35% arall yn nodi nad yw eu defnydd ohoni wedi newid.

Canolfan Gymunedol Stewart Road sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf o ran defnydd gan fod bron 30% o ymatebwyr wedi nodi bod eu defnydd wedi cynyddu a nododd 40% fod eu defnydd wedi aros yr un fath dros y flwyddyn ddiwethaf. O'i gymharu, nododd 11% o ymatebwyr eu bod yn defnyddio llai ar Ganolfan Gymunedol Celtic Way dros y flwyddyn ddiwethaf. Dim ond 7% o ymatebwyr nododd fod eu defnydd wedi cynyddu a 30% nododd fod eu defnydd wedi aros yr un fath.

Mae'r defnydd o ardaloedd chwarae i blant yn ddibynnol ar oedran yr ymatebwyr. Gan fod mwy o dai newydd a theuluoedd yn symud i'r ardal, nododd 21% o ymatebwyr eu bod wedi defnyddio mwy ar yr ardaloedd chwarae dros y flwyddyn ddiwethaf, tra bod 12% o ymatebwyr wedi nodi eu bod yn defnyddio llai arnynt a 24% yn nodi bod eu defnydd ohonynt heb newid.

Roedd rhesymau'r ymatebwyr am y newidiadau yn eu defnydd o'r cyfleusterau yn ymwneud yn bennaf ag oedran eu plant. Nododd rai ymatebwyr y cawsant blant yn ddiweddar, felly roedd eu defnydd o'r cyfleusterau wedi cynyddu. Nododd eraill y byddent yn defnyddio llai ar y cyfleusterau

wrth i'w plant dyfu. Rhoddodd rai ymatebwyr wybod eu bod wedi ymddeol, ac felly yr oedd ganddynt fwy o amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned. Soniodd rhai ymatebwyr fod y parciau mewn cyflwr gwael, felly yr oedd yn rhaid iddynt fynd o'r ardal i ddefnyddio rhai gwell.

Roedd Cwestiwn 6 yn ymwneud â rhesymau dros beidio â defnyddio cyfleusterau. Dim ond 50% o ymatebwyr a atebodd, sy'n rhoi'r argraff bod y 50% arall yn defnyddio'r cyfleusterau. O ran y rhesymau a roddwyd am beidio â defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau yn y Rhws, nododd ymatebwyr: nad oes ganddynt ddigon o amser o ganlyniad i ymrwymiadau eraill; nid oes unrhyw gyfleusterau ar gael; nid ydynt yn gwybod beth a gynhelir; neu nad yw'r amseroedd agor yn addas ar eu cyfer ac o ganlyniad eu bod yn teithio i rywle arall i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Nododd nifer o ymatebwyr fod eu plant wedi tyfu neu nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn unrhyw gyfleusterau penodol, yn enwedig parciau, yr ardal fowlio a'r caeau chwaraeon. Crybwyllodd rhai ymatebwyr nad oedd angen y llyfrgell erbyn hyn gan fod popeth ar-lein. Daethpwyd i'r casgliad, yn dilyn canlyniadau'r arolwg, fod yr ymatebwyr o'r farn pe na byddai gennych chi blant neu pe na byddech chi'n hoffi chwaraeon, byddai dim byd i'w wneud yn y Rhws.

O ran pa gyfleusterau sydd ar goll yn y Rhws, ni chafwyd ateb gan 25% o'r ymatebwyr. Yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd oedd:

- Gwella'r gwasanaeth bysus a threnau
- Gwella'r parciau, yr ardaloedd chwarae a darparu Ardal Gemau Aml Ddefnydd
- Cynnig gwell amrywiaeth o siopau gan gynnwys becws, deli a siop gardiau
- Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc (gan gynnwys clwb nos)
- Darparu canolfan hamdden well gyda lle chwarae meddal

Roedd yr awgrymiadau eraill yn cynnwys ysgol newydd, arafu traffig, sicrhau bod y feddygfa ar agor yn hirach, mwy o bresenoldeb gan yr heddlu, tafarn addas i'r teulu a dosbarthiadau addysg i oedolion.

4.2 Llyfrgell y Rhws

Gofynnwyd i ymatebwyr at ba ddiben y maent yn defnyddio'r llyfrgell. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn defnyddio'r llyfrgell yn bennaf i fenthyg llyfrau, gydag 20% yn defnyddio'r llyfrgell bob wythnos, 30% yn ei defnyddio o bryd i'w gilydd a bron 20% prin yn ei defnyddio. Nodwyd gan rieni a neiniau a theidiau eu bod yn defnyddio'r llyfrgell i fynd â'u plant a'u hwyrion ac wyresau yno, gyda 13% yn ei defnyddio'n rheolaidd a 27% prin yn ei defnyddio.

Nododd ychydig llai na thraean o ymatebwyr nad oeddent erioed wedi defnyddio'r llyfrgell i fenthyg llyfrau, a thrwy hynny heb ddefnyddio'r llyfrgell o bosibl erioed. Nodwyd gan ganran fawr o ymatebwyr nad oeddent erioed wedi defnyddio'r llyfrgell at y dibenion a awgrymwyd. Nododd 90% nad oeddent erioed wedi mynd ag unigolyn yr oeddent yn gofalu amdano yno, nid oedd 84% erioed wedi ymweld â'r llyfrgell ar ran rhywun arall, nid oedd 80% erioed wedi benthyg llyfr llafar, nid oedd 70% erioed wedi'i defnyddio i fynd ar y rhyngrwyd / defnyddio offer TG neu i gymdeithasu, nid oedd 60% erioed wedi'i defnyddio ar gyfer ymchwil a nododd 50% nad ydynt byth yn mynd â'u plant / wyrion nac wyresau yno.

O ran oriau agor y llyfrgell, nododd ychydig dros 50% o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r oriau agor awgrymedig. O'r ymatebwyr hynny a fynegodd farn, nododd bron 40% ohonynt eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai'r llyfrgell fod ar agor am ragor o ddiwrnodau'r wythnos a bod ar agor yn hwyrach.

Gofynnwyd i ymatebwyr pa un a oedd unrhyw wasanaethau newydd y gallai'r llyfrgell eu darparu. Dim ond 28% o ymatebwyr atebodd. Y syniadau canlynol oedd yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd:

- Dosbarthiadau addysg i oedolion (15 ymatebwr)
- Sesiynau adrodd straeon i blant (7 ymatebwr)
- Clwb plant lle y gallant ddysgu sgiliau newydd / grwpiau astudio (6 ymatebwr)
- Ystafelloedd cyfarfod y gall grwpiau eu rhentu (5 ymatebwr)
- Mynd ati i hyrwyddo'n well, gan gynnwys hysbysebu amseroedd agor yn well (4 ymatebwr)

Roedd rhai o'r awgrymiadau eraill yn cynnwys gwe-gaffi, gwasanaeth symudol ar gyfer yr henoed, ardal gyfrifiadurol ar wahân ar gyfer gweithio mewn tawelwch, y feddalwedd ddiweddaraf ar y cyfrifiaduron, gwasanaeth ffotocopïo, benthyg CDs a DVDs. Nodwyd gan dri ymatebwr y dylai'r Cyngor barhau i redeg y llyfrgell ac awgrymodd un y dylid ei chau i lawr er mwyn galluogi'r ysgol i gael ei hymestyn.

Gofynnwyd i ymatebwyr i restru amrywiaeth o wasanaethau y mae'r llyfrgell yn eu darparu yn nhrefn pwysigrwydd. Dim ond 75% o ymatebwyr atebodd y cwestiwn hwn. Ni chafodd copïau papur o'r arolwg hwn eu llenwi'n gywir ar gyfer y cwestiwn hwn. Aeth sawl un o'r ymatebwyr ati i dicio nifer o focsys yn hytrach na threfnu bob un o'r opsiynau yn ôl pwysigrwydd. Fodd bynnag, gorfodwyd y rhai hynny a lenwodd yr arolwg ar-lein i ymateb yn gywir. Yn dilyn yr adborth, mae'n amlwg bod benthyg llyfrau yn parhau i fod y gwasanaeth pwysicaf a gynigir gan y llyfrgell, ac ymddengys mai defnyddio llyfrau llafar yw'r gwasanaeth lleiaf poblogaidd.

O ran gweithgareddau ychwanegol yn y llyfrgell, nododd dros 80% o ymatebwyr y byddai diddordeb ganddynt neu y byddai llawer o ddiddordeb ganddynt mewn dosbarthiadau addysg i oedolion, a thua 60% â diddordeb neu â llawer o ddiddordeb mewn sgyrsiau gan awduron, defnyddio'r llyfrgell ar gyfer cyfarfodydd cymunedol, a sesiynau adrodd straeon i blant, a 50% â diddordeb neu â llawer o ddiddordeb mewn Clwb Hanes y Teulu a Dosbarthiadau Crefftau.

Dim ond 33 ymateb (18%) a gafwyd i'r cwestiwn a oedd yn gofyn am awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau eraill y gellid eu cynnal yn y llyfrgell. Nododd 11 ymatebwr nad oedd ganddynt unrhyw syniad. Roedd syniadau eraill yn cynnwys dosbarthiadau dysgu oedolion, clybiau darllen / jig-so newydd, dosbarthiadau ffotograffiaeth a sesiynau adrodd straeon. Awgrymodd un ymatebwr y dylid defnyddio mwy ar Ganolfan Gymunedol Stewart Road.

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi pa un o'r dewisiadau canlynol a fyddai bwysicaf iddyn nhw:

- Dosbarthiadau addysg gymunedol – nododd 45% o ymatebwyr mai dyma oedd y dewis pwysicaf a nododd 40% ei fod yn ddewis pwysig. Dim ond 10% o ymatebwyr nad oedd ganddynt farn y naill ffordd na'r llall.

- Mynediad ehangach at gyfleusterau cyfrifiadurol – nododd 45% o ymatebwyr ei fod yn ddewis pwysig, fodd bynnag nid oedd gan bron 30% o ymatebwyr farn y naill ffordd na'r llall.
- Cyfleuster i grwpiau bach allu cwrdd – nododd 66% o ymatebwyr mai dyma oedd y dewis pwysicaf neu ei fod yn ddewis pwysig, fodd bynnag nid oedd gan 24% o ymatebwyr farn y naill ffordd na'r llall.

Dim ond 52 o ymatebwyr (28%) atebodd y cwestiwn yn gofyn beth fyddai'r defnydd mwyaf gwerthfawr o'r lle ychwanegol a pham. O'r rhai hynny a ymatebodd, nododd 20 mai lle i grwpiau cymunedol allu cwrdd neu ddosbarthiadau addysg i oedolion fyddai'r defnydd mwyaf gwerthfawr o'r lle ychwanegol. Ymhlith yr awgrymiadau eraill oedd lle distaw i ddarllen, lle ar wahân ar gyfer cyfrifiaduron a lle i bobl gymdeithasu.

Mae'r hyn a ganfuwyd drwy'r cwestiynau manwl am y llyfrgell yn dangos na chynigiwyd unrhyw syniad penodol gan gr□p oedran penodol, ac y byddai pob gr□p oedran yn dymuno gweld mwy o ddosbarthiadau addysg gymunedol, gwell cyfleusterau cyfrifiadurol a lle i gwrdd, cymdeithasu ac ymlacio.

4.3 Amdanoch Chi

Yn yr adran hon o'r holiadur, ni atebwyd unrhyw gwestiwn gan tua 12% o ymatebwyr. Mae'r canrannau y cyfeirir atynt yn ymwneud â'r bobl hynny a atebodd y cwestiwn unigol.

Roedd bron 90% o'r ymatebwyr yn dod o'r Rhws a 6% o Ffwl-y-mwn. Dim ond ambell ymatebwr oedd yn dod o Lanbydderi, Llancarfan a Dwyrain Aberddawan. Ni chafwyd yr un ymatebwr o Nurston, Moulton, Pen-marc, Tre-Aubrey, Llancatal na Llantrithyd. O ran y rhai hynny a ymatebodd o'r Rhws, roedd 40% ohonynt yn byw yn Nhrwyn y Rhws, 20% ohonynt yn byw yng nghanol y pentref a 10% ohonynt yn byw yn Readers' Way a Ffontygari.

Roedd bron 64% o'r ymatebwyr wedi byw yn yr ardal am fwy na 10 mlynedd, 16% wedi byw yno rhwng 6 – 10 mlynedd, 15% wedi byw yno rhwng 2 a 5 mlynedd a 6% wedi byw yno llai na blwyddyn. Roedd bron 35% rhwng 40 a 55 oed, 28% rhwng 25 a 29 oed a 21% rhwng 56 a 65 oed. Ni chafwyd yr un ymateb gan blant a phobl ifanc o dan 16 oed. Roedd tua 40% o ymatebwyr yn gweithio llawn amser, 20% yn gweithio rhan amser, 20% wedi ymddeol a 14% yn hunangyflogedig. Dim ond 6% oedd yn ddi-waith.

O ran technoleg ddigidol, roedd gan y rhan fwyaf o ymatebwyr fynediad at gyfrifiadur / llechen (98%), mynediad at y rhyngrwyd yn eu cartref (98%) a ffôn symudol (94%). Roedd gan fwy na 80% ffôn clyfar ac argraffwr / sganiwr yn eu cartref. Fodd bynnag, llai na 40% o ymatebwyr oedd â lamineiddiwr yn eu cartref.

O ran aelodaeth o glybiau neu grwpiau lleol, roedd 50% o ymatebwyr yn aelodau. Y rhai mwyaf poblogaidd oedd clybiau chwaraeon, clwb gwaith cartref, clwb cymdeithasol a'r sgowtiaid / brownis / enfysau / cybiaid.

5. Sesiynau Galw Heibio Mapio Cymunedol y Rhws

Trefnwyd dwy sesiwn galw heibio yn y Rhws:

- Dydd Iau 3 Tachwedd 2016, 3.00pm tan 8.00pm, Canolfan Gymunedol y Rhws, Stewart Road, Y Rhws.
- Dydd Mercher 9 Tachwedd 2016, 11.30am tan 3.00pm, Canolfan Gymunedol Celtic Way, y Rhws.

Nid oedd llawer o bobl yn bresennol yn y ddwy sesiwn hon, gyda chyfanswm o 23 o drigolion wedi dod i sgwrsio ag aelodau staff. Dim ond ambell drigolyn oedd yn bresennol yn benodol am eu bod wedi gweld y daflen.

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol yn y sesiwn galw heibio:	**Roedd adborth yn cynnwys:**
1. Pa bethau yr ydych chi'n eu hoffi fwyaf am y Rhws?	• Ysbryd cymunedol • Lleoliad gwledig distaw, cefn gwlad / traeth • Tudalennau Facebook er mwyn cael gwybod beth sy'n digwydd.
2. Pa wasanaethau ydych chi'n eu defnyddio yn y Rhws?	• Y canolfannau cymunedol ar gyfer sinema, gweithgareddau plant, clwb gwaith cartref, bale • Clwb cymdeithasol • Gwasanaethau meddygol – meddygfeydd / deintyddion / fferyllfeydd • Llyfrgell • Swyddfa'r Post, siopau, siop trin gwallt
3. Pa wasanaethau ydych chi'n eu defnyddio y tu allan i'r Rhws?	• Siopau • Amrywiol glybiau yn Llanilltud Fawr, Ystradowen, y Bont-faen a'r Barri
4. Beth yw eich dymuniadau ar gyfer y dyfodol?	• Gwell system drafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys gwasanaethau bysus a threnau • Mwy o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc • Parciau gwell • Dosbarthiadau addysg gymunedol • Cyfathrebu gwell rhwng y gwahanol ardaloedd

Cofnodwyd sylwadau ar nodiadau gludiog a'u gosod ar bosteri A1.

6. Gweithdy Mapio Cymunedol y Rhws

Cynhaliwyd y gweithdy ar ddydd Sadwrn 12 Tachwedd 2016 rhwng 10am a 1pm yng Nghanolfan Gymunedol Stewart Road. Gwahoddwyd y bobl hynny a oedd yn cymryd rhan weithgar mewn gweithgareddau cymunedol yn y Rhws i ddod ynghyd a chael sgwrs am ddarpariaeth gwasanaethau yn y Rhws, lle yr oedd bylchau yn y ddarpariaeth a beth oedd eu dymuniadau ar gyfer y dyfodol.

Dyma'r digwyddiad mapio cymunedol cyntaf ar ffurf gweithdy a gynhaliwyd gan y Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC), gan roi cyfle i dreialu rhai o'r ymarferion o'r llawlyfr Mapio Cymunedol.

Roedd 16 o bobl yn bresennol ar y diwrnod. Roedd y gweithdy'n gyfuniad o:

- **Siaradwyr -** Hannah Dineen yn siarad am Fapio Cymunedol, Helen Blackmore yn sôn am y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig a Charlotte Pugh yn trafod cyllid S106
- **Tasgau o'r llawlyfr Mapio Cymunedol.** Rhannwyd y cyfranogwyr yn grwpiau bach ynghyd â hwylusydd. Cafwyd tair tasg:
    - 'Fy Hoff Leoedd' – gofyn i'r cyfranogwyr beth yr oeddent yn ei hoffi fwyaf am y Rhws
    - 'Coeden Ddymuniadau' - gofyn i'r cyfranogwyr nodi eu dymuniadau ar gyfer dyfodol y pentref.
    - 'Dyfodol y Llyfrgell' – gofyn i'r cyfranogwyr drafod syniadau ar gyfer gwasanaethau / gweithgareddau newydd, cyfleoedd gwirfoddoli a chreu incwm.

Roedd y gweithdy'n ymarfer gwerthfawr, gan ddod â'r gymuned at ei gilydd a galluogi pobl i rwydweithio gyda phobl na fyddent fel arfer yn siarad â nhw, yn ogystal â chynnal trafodaeth dda am ddyfodol y Rhws. Roedd rhai o'r materion allweddol a godwyd yn cynnwys yr angen i sicrhau:

- gwell cyfathrebu ar draws y ward
- mwy o gyfleusterau / gwasanaethau o ystyried y twf ym mhoblogaeth yr ardal, gan gynnwys gwell trafnidiaeth gyhoeddus, ysgolion mwy a rhagor o siopau.
- y darperir dosbarthiadau addysg gymunedol yn y llyfrgell
- y cynhelir dadl yn ymwneud â lleoliad y llyfrgell a pha un a fyddai modd ei lleoli o fewn un o'r canolfannau cymunedol sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal.

7. Prif Ganfyddiadau

Yn dilyn y trafodaethau a chanlyniadau'r arolwg, mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o'r trigolion yn mwynhau byw yn y Rhws o ystyried pa mor agos ydyw at yr arfordir ac at gefn gwlad.

Roedd y trigolion yn teimlo y dylid gwella cyfleusterau gan gynnwys gwasanaethau iechyd, yr ysgol, trafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau cymunedol a siopau, o ystyried y twf ym mhoblogaeth yr ardal. Cafodd mwy o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc a pharciau gwell eu nodi hefyd fel blaenoriaethau.

O ran y llyfrgell, roedd y rhan fwyaf o bobl yn ei defnyddio i fenthyg llyfrau, ac nid ar gyfer benthyg llyfrau llafar, ymgymryd â gwaith ymchwil nac ar gyfer defnyddio'r rhyngrwyd. Cytunodd nifer o bobl y byddai'n well pe byddai'r llyfrgell ar agor am ragor o ddyddiau'r wythnos ac yn agored yn hwyrach hefyd. O ran cyfleusterau newydd yn y llyfrgell, roedd y syniadau mwyaf poblogaidd yn cynnwys:

- Dosbarthiadau addysg gymunedol
- cynnal gweithgareddau newydd megis adrodd straeon i blant, dosbarthiadau crefftau, clybiau darllen
- gwell cyfleusterau cyfrifiadurol
- ystafelloedd cyfarfod ar gyfer grwpiau neu ddigwyddiadau cymdeithasol.

Cafwyd trafodaeth drylwyr yn y gweithdy yn ymwneud â lleoliad y llyfrgell a pha un a fyddai'n well ei lleoli mewn canolfan gymunedol yn hytrach na mewn adeilad ar ei ben ei hun.

Roedd rhai o'r awgrymiadau eraill yn cynnwys gwella cyfathrebu o fewn y ward (e.e. cyfeirlyfr / cylchlythyr ar gyfer yr ardal) a sefydlu Cyngor Cymuned.